egroeso
bwletin electronig gan **Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru**

RHIFYN 20

Dewch draw, rydym yn croesawu busnes

llun: eyeimagery

TOURISM PARTNERSHIP North Wales

PARTNERIAETH TWRISTIAETH Gogledd Cymru

01745 589020
www.tpnw.org

allan

▶ **tudalen nesaf**

adventure

attractions

short breaks

gardens

golf

moviemap

walking

walled towns

giants

events

ambassadors

Ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Funded by Welsh Assembly Government

Dewch draw, rydym yn croesawu busnes

Mae ymgyrch fawr ar y gweill i wneud yn siŵr fod busnesau yn gwybod am Ogledd Cymru.

Mae Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru yn ceisio denu mwy o gynadleddau, cyfarfodydd ac arddangosfeydd i'r rhanbarth.

Cred y sefydliad, sy'n gyfrifol am ddatblygiad strategol yr economi ymwelwyr yng Ngogledd Cymru, fod yna botensial mawr ar gyfer twf.

Mae'r farchnad twristiaeth fusnes eisoes yn werth mwy na £13 miliwn y flwyddyn a'r gobaith yw y gwelir cynnydd o rhwng 10 a 20 y cant mewn refeniw.

Yn ôl Cyfarwyddwr Strategaeth Rhanbarthol y Bartneriaeth Twristiaeth, Dewi Davies, mae'r rhanbarth mewn sefyllfa dda i fanteisio ar y cyfleoedd ar adeg pan mae pobl yn chwilio am fwy o werth am arian.

Mae'r Bartneriaeth Twristiaeth yn gwneud yn siŵr fod Gogledd Cymru wedi'i chynrychioli yn CONFEX 2011 yn Llundain, y prif ddigwyddiad yn y DU i bobl sy'n trefnu cyfarfodydd, cynadleddau neu ddigwyddiadau arbennig.

Mae hefyd yn bwriadu cynnal digwyddiad busnes i fusnes yn nes ymlaen eleni yn Cloud 23 yng Ngwesty'r Hilton, adeilad talaf Manceinion.

Meddai Mr Davies: "Mae Cloud 23 yn lleoliad hynod o briodol gan ei fod yn cysylltu â'n taflenni hyrwyddo sy'n dangos llun o'r Wyddfa.

"Y peth gwych sydd gennym yng Ngogledd Cymru yw ein hawyr agored, sy'n ased hynod eithriadol.

"Mae'n ymestyn o Ynys Môn i Eryri, ar hyd ein harfordir i Fryniau Clwyd.

"Mae gennym rywbeth gwahanol iawn i'w gynnig i'r llu o ganolfannau cynadledda traddodiadol mewn rhannau adeiledig, trefol o'r DU - neu dramor - gan wrthgyferbynnu â llwydni bywyd trefol.

"Ar ben hynny, mae'n hawdd iawn cyrraedd Gogledd Cymru ac yn hynod o fforddiadwy i fusnesau'r DU a rhyngwladol sy'n awyddus i

gynnal cynhadledd.

"Rydym yn gysylltiedig â rhwydwaith y traffyrdd diolch i'r A55 sy'n golygu y gallwch deithio o un pen o Ogledd Cymru, o'r M56, i'r llall mewn rhyw awr go lew.

"Mae gennym hefyd gysylltiadau rheilffordd rhagorol a all greu busnes o dde ddwyrain Lloegr ynghyd â gwasanaeth awyrennau ar Ynys Môn.

"Mae'r cyswllt awyrennau yn rhoi cyfle i fusnesau ddod o Gaerdydd yn gynnar yn y bore a chynadledda am ddiwrnod neu ddau ar Ynys Môn.

"Gan fod meysydd awyr Manceinion a Lerpwl mor agos, rydym yn eithaf hwylus i grwpiau mawr.

"Mae ein gwestai mewn ardaloedd gwledig a rhannau eraill o Ogledd Cymru yn eithriadol o gystadleuol o ran prisiau.

"Mae hynny'n arbennig y bwysig y dyddiau yma gan fod busnesau yn torri eu costau ac yn chwilio am werth am arian.

"Mae gennym bob mathau o westai – popeth o westai rhad i westai clasurol a gwestai boutique.

"Mae gennym fwy na 100 o lefydd i gynnal cynadleddau a chyfarfodydd bach yng Ngogledd Cymru, yn cynnwys Venue Cymru sydd ag amrywiaeth eang o ystafelloedd ac sy'n gallu dal ymhell dros 1,000 o bobl ar gyfer digwyddiad mawr.

"I ategu hynny mae gennym westai pedair seren gwych sy'n gallu cynnig cyfleusterau o'r radd flaenaf a lletygarwch cyfatebol.

"Yn ogystal â hynny, mae gennym gyfleusterau pwrpasol ardderchog fel yr Ysgol Reolaeth ym Mhrifysgol Bangor sy'n cynnig llety safonol o fath gwahanol.

"Roedd Big Weekend Radio Un ar Stad y Faenol yn llwyddiant ysgubol ac mae wedi rhoi amlygrwydd i ni na allem ei brynu gydag arian.

"Mae ein strategaeth yn cynnwys gweledigaeth o wthio Gogledd Cymru i bump uchaf cyrchfannau'r DU.

"Rydym yn gweithio'n galed gyda Chroeso Cymru ac mae gennym dudalen ar eu gwefan sy'n dangos yr hyn sydd gan Ogledd Cymru i'w gynnig.

"Rydym yn ymdrechu'n galed i adnewyddu ein gwefan www.conferences-northwales.com.

"Rydym yn codi ymwybyddiaeth drwy ein hymdrechion ym maes cysylltiadau cyhoeddus ac yn targedu cylchgronau sy'n arbenigo mewn rheoli cynadleddau a digwyddiadau.

"Rhan arall o'n gwaith yw gweithio gyda chronfeydd data busnesau ac asiantaethau targed sy'n ymwneud â'r sector twristiaeth fusnes.

"Mae'r sector twristiaeth fusnes yn werth cyfanswm o £13.36 miliwn ac oherwydd ein bod yn gallu cynnig y fath werth am arian mewn lleoliad godidog, mae Gogledd Cymru mewn sefyllfa dda i fanteisio i'r eithaf ar y potensial ar gyfer twf.

"Rydym yn buddsoddi tua £27,000 ac fe hoffem weld cynnydd o 10 neu 20 y cant yn y refeniw sy'n cael ei gynhyrchu.

"Y peth pwysig am y sector twristiaeth fusnes yw ei fod yn llai tymhorol, gan fod y rhan fwyaf o gynadleddau yn cael eu cynnal y tu allan i'r prif dymor gwyliau.

"Mae'n ffordd o gynnal ein swyddi ym maes twristiaeth a lletygarwch drwy'r flwyddyn ar ei hyd yn hytrach na bod yn destun y cyfnodau bras a'r cyfnodau llwm arferol."

www.tpnw.org